

# Disability Arts Cymru

40  
1982-2022

Gwobr Geiriau Creadigol 2022  
DAC Creative Word Award 2022

## Celfyddydau Anabledd Cymru

“Mae’n bleser o’r mwyaf cael dathlu pen-blwydd DAC yn 40, ac yn arbennig felly wobr y Gair Creadigol a’r cyhoeddiad. Fel y mae wedi bod yn y gorffennol, mae’r gwaith yn ysbrydoli ac yn herio a rhaid i’r thema - ‘Aildanio’ – ‘Reigniting’ – fod yn berthnasol i ni i gyd sy’n dymuno, ac â’r cyfrifoldeb dros gefnogi creadigrwydd pobl anabl yn ein cymdeithas. Rhaid i fflam amrywiaeth losgi’n gyson fwy disglair” - **Phil George, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru**

### **Ruth Fabby MBE, DL, FRSA, Cyfarwyddwr Celfyddydau Anabledd Cymru**

Mae’n bleser gennym gyflwyno gwobrau Geiriau Creadigol eleni. Mae safon y gwaith wedi bod yn eithriadol o uchel, a gwn fod y beirniaid wedi wynebu tasg hynod o anodd wrth benderfynu ar y darnau ar gyfer y cyhoeddiad terfynol. Diolch yn fawr iddyn nhw am eu hymdrechion a’u safbwyntiau gwych. Rydyn ni hefyd yn diolch i bawb a gyflwynodd eu gwaith a’r rheini a fynychodd y gweithdai ysgrifennu a gyflwynwyd gan Denni Turp a Grace Quantock. Roedd y cyflwyniadau a grëwyd yn eu sgil yn dangos, yn briodol, pa mor bwysig oedd cymryd rhan ynddynt.

Llongyfarchiadau i’r holl awduron y cyhoeddwyd eu gwaith, a gobeithio y bydd y rhai na fu’n llwyddiannus y tro hwn yn cyflwyno gwaith yn y rownd nesaf. Rydyn ni hefyd yn ddiolchgar am gydweithrediad Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae eu cefnogaeth i gydnabod gwaith gan awduron sydd â phrofiad uniongyrchol o anabledd yn bwysig o ran hyrwyddo mynegiant ac amrywiaeth ein cenedl.

Hoffai Celfyddydau Anabledd Cymru ddiolch yn arbennig i Sara Beer am ei holl waith caled yn cydlynu’r prosiect hwn. Mae hi wedi bod yn gefnogwr ac yn anogwr cyson i bawb a gymerodd ran eleni gan gyflawni pob agwedd ar y prosiect yn wych.

Yn olaf, drosodd i chi’r darllenwyr – gobeithio y byddwch chi’n mwynhau darllen y cyhoeddiad terfynol ac yn ymuno â ni i longyfarch yr awduron a ddewiswyd a’r rhai a ddaeth i’r brig.

“It’s a huge pleasure to celebrate DAC’s 40th anniversary and particularly the Creative Word prize and publication. As ever, the work is both inspiring and challenging and the theme of ‘Aildanio’ – ‘Reigniting’ – must apply to our collective will to support the creativity of disabled people in our society. The flame of diversity needs to burn more brightly”

- **Phil George, Chair Arts Council Wales**

### **Ruth Fabby MBE, DL, FRSA, Director of Disability Arts Cymru**

We are delighted to present this year’s Creative Word awards. The standard of work has been extremely high, and I know the selectors had their work cut out to narrow down the pieces for the final publication. Our thanks go to them for their excellent efforts and insights. We also thank all who submitted their work and those who attended the writing workshops delivered by Denni Turp and Grace Quantock. The resulting submissions aptly demonstrated the importance of participating in them.

Our congratulations go to all the published writers, and we hope that those who were not successful this time will submit work in the next round. We are also grateful for the collaboration of Literature Wales and the Book Council of Wales. Their support in acknowledging work from writers with the lived experience of disability is important in advancing the expressions and diversity of our nation.

DAC would particularly like to thank Sara Beer for all her hard work in pulling this project together. She has been a constant supporter and encourager to all who got involved this year and delivered all aspects of it, brilliantly. Lastly, over to you the readers – we so hope you enjoy reading the finalised result and join us to congratulate the selected writers and victors.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn falch iawn o fod wedi gweithio mewn partneriaeth â Chelfyddydau Anabledd Cymru i gefnogi eu Gwobr Geiriau Creadigol 2022.

Ym mis Mai a mis Mehefin 2022, arweiniodd yr awduron a'r hwyluswyr Grace Quantock a Denni Turp ddau ddsbarth meistr ysgrifennu creadigol ar gyfer unigolion a oedd yn bwriadu cyflwyno darnau ar gyfer y gystadleuaeth. Gwahoddwyd y cyfranogwyr i ganolbwyntio ar y thema 'Aildanio' // 'Ignite' // 'Ailafael' // 'Resume' ac archwilio cysyniadau fel gwleidyddiaeth hunaniaeth, anabledd a byddardod, munud mewn amser, syniadau am y model cymdeithasol o anabledd, a'r hyn y gall bywyd ar ôl Covid ei olygu wrth iddynt aildanio neu ailafael yn eu hymatebion creadigol yn y gymdeithas sydd ohoni.

Mae Llenyddiaeth Cymru o'r farn y bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddiaeth a chynrychiolaeth a darpariaeth gyfartal yn helpu i newid dyfodol ein cymunedau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r bartneriaeth gyda Chelfyddydau Anabledd Cymru yn dangos sut gall creadigrwydd helpu i newid bywydau, darparu llwyfannau ar gyfer lleisiau llenyddol sy'n cael eu tangynrychioli a'u hannog i greu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli Cymru gyfan.

Literature Wales is delighted to have partnered with Disability Arts Cymru to support their Creative Word Award 2022.

In May and June 2022 writers and facilitators Grace Quantock and Denni Turp led two creative writing masterclasses for individuals planning to submit pieces for the competition. Participants were invited to focus on the theme of 'Aildanio' // 'Ignite' // 'Resume' and explore notions such as identity politics, disability and Deafness, a moment in time, thoughts on the social model of disability, through to what life post-covid may bring as they ignite or resume their creative responses in today's society.

Literature Wales believes that participation in literature activity and representation and equality of provision will help positively change the futures of our communities. The partnership with Disability Arts Cymru shows how creativity can help change lives, provide platforms for, and encourage under-represented literary voices to create a national literary culture which represents the whole of Wales.

### Megan Angharad Hunter

Roedd beirniadu Gwobr Geiriau Creadigol Disability Arts Cymru eleni yn anrhydedd, nid yn unig oherwydd y parch a'r edmygedd mwyaf sydd gennyf tuag at y sefydliad a'i staff, ond oherwydd safon uchel gwaith pob ymgeisydd a ysgrifennodd yn ymateb i'r thema Aildanio. Cefais fy llorio gan bron pob un o'r darnau Cymraeg eu hiaith a dderbyniais. Yn wir, gobeithiaf mai parhau i ddatblygu eu crefft a chyhoeddi'u creadigaethau a wna'r ymgeiswyr oll er mwyn cyfrannu tuag at yr arlwy cyfoethog o lenyddiaeth sydd gennym yn y Gymraeg, ac hynny â lleisiau gwreiddiol a phwysig sydd eu hangen ar frys arnom yma yng Nghymru. Yn sicr, mae'r gynrychiolaeth ar ein silffoedd llyfrau sydd yn portreadu profiadau b/Byddar ac/neu a/Anabl ag empathi a gonestrwydd yn tyfu, ond mae galw taer o hyd am ragor o leisiau - lleisiau fel yr ymgeiswyr hyn - sydd â straeon pwysig i'w hadrodd a'r ddawn i adrodd y straeon hynny mewn modd sydd yn cyfareddu'r darllenydd yn llwyr.

Mewn cystadleuaeth â phob darn mor galonogol o safonol, roedd dewis y rhestr fer a'r enillydd yn anodd dros ben; darganfyddais ymysg y darnau gymalau a chyffyrddiadau hyfryd o deimladwy, ffraethineb deallus, treiddgarwch a cheinder celfydd a'm swynodd. Cafwyd rhai cerddi neu ddarnau o ryddiaith a froliodd pob un o'r elfennau hyn. Hoffwn felly longyfarch a diolch o galon i bob ymgeisydd am eu gwaith caled, ac annog pob un ohonynt i barhau i ysgrifennu; rydym angen eich lleisiau chi. Sicrhewch na chaiff lleisiau Cymraeg b/Byddar ac/neu a/Anabl eu tewi mwyach ac y cânt, yn hytrach, eu haildanio.

### **Megan Angharad Hunter**

Judging this year's Disability Arts Cymru Creative Word Award was an honour, not only for the utmost respect and admiration I have for the organisation and its staff, but for the high standard of the work of all candidates who wrote in response to the theme - Aildanio (Ignite). I was overwhelmed by almost all the Welsh language pieces I received. Indeed, I hope that all applicants will continue to develop their craft and publish their creations in order to contribute to the rich literature that we have in the Welsh language, with original and important voices that we urgently need here in Wales. Certainly, the representation on our bookshelves that portrays the experiences of Deaf and/or disabled people with empathy and honesty is growing, but there is still a desperate need for more voices – voices such as these candidates – who have important stories to tell and the talent to tell those stories in a way that completely captivates the reader.

In a competition where every piece is of such an encouragingly high standard, deciding on the shortlist and winner was an extremely difficult task; I discovered some beautifully moving phrases and touches, intelligent wit, insight and artistic elegance that fascinated me. There were some poems or pieces of prose that had all of these elements. I would therefore like to sincerely congratulate and thank each and every candidate for their hard work, and encourage them all to continue writing; we need your voices. Make sure that Welsh Deaf and/or disabled voices are no longer muted and are ignited.

## **Kittie Belltree**

Diolch i Gelfyddydau Anabledd Cymru a Llenyddiaeth Cymru am ofyn i mi feirniadu'r ceisiadau Saesneg ar gyfer Gwobr Geiriau Creadigol 2022. Diolch hefyd i'r holl awduron a gyflwynodd eu gwaith. Roedd hi'n fraint cael darllen a gwrando ar leisiau mor angerddol a chreadigol ac, yn y pen draw, gwneud dewisiadau anodd a llunio rhestr fer. Roedd llawer o'r ceisiadau yn mynegi rhwystredigaethau a heriau byw gydag anabledd cudd mewn amgylcheddau abl a niwronodweddiadol; rhywbeth sy'n tynnu sylw at y newidiadau sydd angen digwydd o hyd er mwyn i ni sicrhau diwylliant creadigol gwirioneddol amrywiol, cynhwysol a hygyrch.

Mae'r gerdd fuddugol, **'Aroused'**, yn ymateb yn dda iawn i'r thema 'Aildanio'. Mae'n llawn emosiwn a brawddegau hyfryd sy'n cael eu hategu gan effeithiau clywedol swynol. Rydw i hefyd yn hoffi pa mor gryno yw'r gerdd – mae'n mireinio hanfod y darn – yn ogystal â'r strwythur tair llinell a'r diwedd glo cryf iawn.

### **'Hidden Disability'**

Roedd yr iaith wych, y defnydd o ekphrasis i fynegi'r syniad o anabledd cudd a'r awydd i rannu hyn gyda'r byd drwy ruo, yn gwneud i'r gerdd hon neidio, yn llythrennol, oddi ar y dudalen.

### **'You have Autism (ASD)'**

Naratif teimladwy a phwerus sy'n ymateb yn arbennig o dda i'r thema. Mae'r brawddegau miniog yn cynnwys llawer o emosiwn, ac fe wnaeth y syniad anarferol bod yr hunan yn fath o long ryfel fy nharo i.

### **'The Summers'**

Cerdd wych gyda dechrau beiddgar sy'n defnyddio cyflythrennu yn effeithiol i ddenu'r darlennydd. Mae'r delweddau a'r disgrifiadau anarferol yn cyfleu natur rithiol ac emosiynol iawn y cof, ac mae'r diwedd glo'n hynod o bwerus.

### **'New Hope Back in Wales'**

Cronicl disglair a beiddgar, gyda phob llinell yn llawn pleser a rhyfeddod. Mae'r defnydd o gwpledi'n gweithio'n dda yma i ddal y naratif ac rydw i wrth fy modd gyda'r ffordd mae'r gerdd yn dod i ben ar gwestiwn mor hollbwysig.



## **Kittie Belltree**

Thank you to DAC and Literature Wales for asking me to judge the English language entries for the Creative Word Award, 2002. Thanks also to all the writers who submitted their work. I feel very honoured to have been able to read and listen to such passionate and creative voices and ultimately to make difficult choices and arrive at a shortlist. Many of the entries expressed the frustrations and challenges of living with a hidden disability within ableist and neurotypical environments; something which highlights the changes that still need to happen if we are to achieve a truly diverse, inclusive and accessible creative culture in Wales.

The overall winning poem **'Aroused'**, responds very well to the theme of 'Aildanio', bursting with emotion and luscious phrasing underscored by engaging aural effects. I also like the poem's brevity - it really sharpens the essence of the piece - plus the three-line structure and the very strong ending.

### **'Hidden Disability'**

Fabulous language, the use of ekphrasis to express the idea hidden disability and the desire to 'roar' this out to the world, made this poem literally leap off the page.

### **'You have Autism (ASD)'**

A moving and powerful narrative that really responds to the theme. The sharp phrasing carries a lot of emotion, and I was struck by the unusual idea of the self as a type of battleship.

### **'The Summers'**

A great poem with a bold start that uses alliteration effectively to draw the reader in. The unusual imagery and description capture the illusive and highly emotive nature of memory, and the ending is particularly powerful.

### **'New Hope Back in Wales'**

A bold and brilliant chronicle, every line packed with surprises and delights. The use of couplets works well here to hold the narrative and I really love the way the poem ends on such a pivotal question.

## Enillydd: Iaith Gymraeg

### Winner: Welsh Language

#### Ablaeth Rhemp y Crachach Sara Louise Wheeler

Mae'n cymryd blynyddoedd  
i astudio'r grefft o farddoniaeth', meddai;  
O! yr eironi. Achos dyna be' dwi  
'di bod yn gwneud 'sdi,  
ers o ni'n ryw seventeen...  
yn barddoni mewn bedsits hefo beiro!

Do tad, mi es i'r 'steddfodau bach lleol,  
a'r un mawr genedlaethol, hefyd;  
cyfrannu, barddoni, sgrifennu, cymdeithasu –  
yn fwy na eraill o fro fy mebyd.

Ond mae'r sin llenyddol Cymreig yn seiliedig  
ar egwyddorion a meddylfryd niwrotypigal,  
sy'n fy eithrio o bob cornel.

'Diffyg llythrennedd'; - yr unig adborth ges i,  
a hynny ddim yn helpu o gwbl, gan mai  
nam yr ymennydd sy'n achosi hynny.  
Mae angen cymorth, cefnogaeth, a dealltwriaeth,  
er mwyn cynnwys ein hamrywiaeth -  
yn stori fawr gwilt clytwaith 'Y Cymry'.

Chi'n cyd-nabod yr angen am gydraddoldeb,  
ac amrywiaeth i raddau, ond nid anabledd o gwbl;  
Well peidio sôn am hwnnw – achos, onid diffyg ymdrech  
'di hwnnw, wedi'r cyfan, yn y bôn?

Mae'r bwlch rhwng ein bydoedd mor eang,  
fel bysa angen rhyw fath o wyrth  
i dy helpu di i weld fy nhalent o gwbl:  
YR HOLL BWYNT YW FY NGWAHANIAETH!

'Teilyngdod barddol' arferol yn rhywbeth rhiniol  
ac yn ddirgelwch yn ei gynildeb amwys;  
mae 'na fwy nag un ffor' o fod yn fardd, 'sdi!

Ond dene fo, dim ots...dim pwynt dadlau.  
A'i ymlaen i chwarae yng nghae eang, braf y byd,  
y tu hwnt i dy gilfach gul, ddiddychymyg di,  
lle mae popeth mor undonog.

Wedi fy sbarduno, gan aildanio'r tân yn fy môl –  
a'r creadigrwydd yn llifo drwyddo i.

A'i ati o ddifri, yn ffyrnig, ddi-baid,  
i rannu barddoniaeth am fy enaid  
hynod, od, i

**Enillydd: Iaith Saesneg**  
**Winner: English Language**

**Aroused Jane Campbell**

Cousin mole, who left sifted soil  
by my narrow cot this coddled winter,  
you rekindled my desire to flourish.

Unseen you scraped a life  
from worms and roots  
then lifted a gift to the surface.

Kindred velvet creature,  
I hid too  
for a long night-time,

emerge now to bare my face  
in a public space,  
yearning for the miracle of smiles.  
But I shall never forget,  
your dark earthworks  
and random acts of kindness.

## Cymeradwyaeth Uchel: Iaith Gymraeg Highly Commended: Welsh Language

12

### Aildanio atgof neu Distawrwydd, fy hen ffrind Wendy Jones

Collaf y cydseiniad meddal yn ddiarwybod am ddegawdau. Gwenaf mewn sgwrs gan ddwrddio fy hun am ddiffyg canolbwyntio. Pan ddaw prawf clyw rwyf yn dychryn gyda'r holl sŵn. Adref gyda'r teclynnau clyw yn fy nghlustiau mae fy nghalon yn curo. Oes 'na rywun yn y tŷ? Mae llawes fy nghôt yn crafu yn erbyn y defnydd. Dwi eisiau rhedeg allan o'r tŷ, oddiwrt h y synau dieithr. Dim ond llaw sydd rhwng hyn a fy hen fyd cyfarwydd. Rwyf yn ei ymestyn, a thynnu'r ddau gymorth clyw allan ond mae'r atgof wedi'i aildanio.

Llithraf i'r iaith Saesneg wrth ei gofio, Owen. Pam? Y rhes o lyfrau Saesneg ar y silff yn ei lofft uwchben y garej efallai? Gyda'i fysedd y bu Owen yn creu geiriau, rheini'n dawnsio fel glöyn byw. Cyfeiliodd symudiadau'i fysedd gyda llafariaid hir afreolus, heb gytsain i'w torri a'r sain fel cerddoriaeth arbrofol haniaethol. Roedd fy Saesneg fel cyfrinach a oedd wedi ei blygu mewn hances a'i gadw mewn drôr. Tybed os oedd Owen yn gwybod fy nghyfrinach? Cymraeg yr oeddwn yn defnyddio ar lafar, Cymraeg cyffredin fy nhad.

'Remember to say your prayers before you go to sleep...'

Oglau bwyd babi sydd ar y bwyd moch, debyg i uwd melys. Dilynaf y bwced haearn a siglai yn ei law. Daw gwich y moch yn uwch wrth nesáu. Rhyw groen pinc sych ganddynt, y creaduriaid, fel petai nhw'n crasu yn yr haul. Eisteddwn ar lechen ben wal y cwt moch yn crafu eu cefnau wrth i Owen ei bwydo.

Rwyf yn bump oed ac mae yna ferched yn chwarae efo fi yn yr ysgol. Dwi wedi cael mwrthwl i daro bord pan glywaf sain. Y ddynes a daeth i'n cartref rhyw gyda'r nos efo fy nhad sy'n dod i fy nol, dynes gwallt du mewn steil a gelwid yn 'beehive' a llygaid brown ganddi. Nid wyf yn nabod ofn eto. Mae ei cherddediad yn fan ac yn fuan ac rwyf yn trotian ar ei ôl. Daw ei llais cras dros ei ysgwydd i fy nwrddio am fethu prawf ysgol. Y prawf clyw. Mae hi'n dwpsyn a tydi hi ddim yn son wrth fy nhad.

Yn fy mreuddwyd mae fy Mam yn fyw ac mae fy nhad yn chwerthin. Mae chwaer fy mam yno ac mae'r ddwy wedi bod ym Mangor. Wrth gael panad mewn caffi clywa fy mam rhywun yn dweud bod y Saeson yma ym mhobman. Gyda'i ei ychydig o Gymraeg mae fy mam yn llwyddo dweud 'Dwi'n dallt be 'dach chi'n deud'. Plant y blitz yw'r ddwy, plentyndod yn chwilio am loches oddiwrth y bomio. Mae Owen yn galw am banad trwy ddrws bach y tŷ. Rwyf yn cael benthyc un o'i lyfrau Saesneg. Cymro Cymraeg yw Owen ond mae yn ysgrifennu nodyn yn Saesneg gyda llawysgrifen copperplate hardd a'i ddangos i fy rhieni. 'I am completely deaf and she is a bit deaf'. Ond mae yna dwll yn nho'r tŷ ac nid oes modd cofleidio fy mam.

# Cymeradwyaeth Uchel: Iaith Saesneg

## Highly Commended: English Language

14

### Hidden Disability Rachel Carney

in a painting of a tiger  
rampaging through a tropical storm

thrashing terminology  
in all directions knocking

down the definitions  
just out

of sight bursting wet  
through vegetation

is this trail and all I can see  
of leaves and diagnoses

strewn all over with no real path  
to show where or how I fit

or how I can begin to split  
his striped shape

to paint it on myself  
or roar it to the world

\*after 'Painting of a Tiger in a Tropical Storm' by Henri Rousseau

# Cymeradwyaeth: Iaith Gymraeg

## Commended: Welsh Language

15

### Sbardun Lee Green

Cynnau tân yn fy nghanol,  
eisioes clywf y curiad,  
rhag tywyllwch y dyfodol,  
mynnu ein symudiad,  
preniach bychain, dwylaw pur,  
Sbardun noeth rhag oerni,  
codaf bont lle ydoedd mur,  
defnydd doeth fy egni,

gwahaniaethau yw ein nerth,  
daw cytgord i'r byd  
wrth i ninnau weld ein gwerth,  
dyma yw fy mreuddwyd,  
Canwch nawr fy ffrindiau llw!  
Nawr amser atgyfodi.

### Aildanio Lowri Larsen

Ar lan y môr fin nos dwi'n aildanio.  
Aildanio'r ysfa am ddoe.  
Yr ysfa am ysgrifennu.  
Hawdd tanio tan ar hen aelwyd.

Fy nghariad cyntaf oedd ysgrifennu.  
Tudalen lan i farcio.  
Y beiro yn symud, yn llif o'r  
isymwybod. Straeon i ysgrifennu.

Salwch yn mynd yn fy ffordd.  
Diwrnodau hir, di ddim.  
Tywyllwch, distawrwydd, poeni. Colli  
creadigrwydd.  
Bywyd yn gwibio heibio fel trê.

Corona.  
Cyfnod clo.  
Y tŷ fel carchar.  
Pawb yn garcharorion.  
Dim ysbrydoliaeth.

Rŵan dwi'n teimlo pethau yn arafu.  
Glaw ar ffenestr y car.  
Emosiynau yn diferu.  
Barod i arllwys geiriau ar dudalen.

Dwi'n gweu geiriau at ei gilydd.  
Mae gen i lyfr bach du.  
Mae fy hiraeth am ddoe yn lleddfu  
wrth i mi ddod adref.



**You have Autism (ASD)** Daniel Raja

It's a relief, at least to me. I'd dare say I'm even happy about it. Strange that I'd be happy about a piece of paper that says I'm officially more disabled than ever before. Stranger still that I like reading it over and over again as if my diagnosis were typed up by Roald Dahl himself.

It comes as no real surprise to me, or my mother, or my close friends. It provides explanations to many questions I had about myself: Why do I hit myself when stressed? Why do I eat my food in a specified order? Why is my best friend someone else's drawing? Why does the world seem so chaotic? Why am I sexually dysfunctional? Actually, I'm quite proud of that.

I'd sit at a table for two in a café window, staring at the raindrops sliding down the glass, catching the colors of a traffic light, writing the source code to an intercontinental hypersonic anti-matter ballistic missile guidance system on a dirty napkin. My only warmth being the vapor rising off the coffee kissing my neck, my only embrace being the elastic in my britches. Asexuality compliments my social disposition nicely.

Love is a liability best avoided. So I consider it evolutionarily advantageous that I am naturally adverse to the practice. My life is lonely, but peaceful. And peace is a commodity I value very much. Anyway didn't the Apostle Paul say, "A married man is good, but a single man is very good"?

My drawing habits garnered me the alienation distributed by those whom my Mother referred to as "People of lesser intelligence". Usually, older women with their better years behind them who preferred innocent little handicapped Christian children to produce the sweet inoffensive artwork that their underfed cognitive schemas stipulated. My work deviated from those aforementioned guidelines to such an extreme degree a psychological defect was suspected ... well I suppose they weren't wrong...

Instead of gluing cotton wool and googly eyes on cardboard sheep during arts and crafts club, I drew angelic knights fighting against hordes of demons, or beheaded dragons with fountains of blood spurting from their necks. Or maps of fantasy realms with miles of misty mountains, dark dingy forests where eldritch beings stride, crawl and slither. Acres of wasteland with dead trees subject to magical irradiation caused by sinister sorcery or foul magics... or just a nearby volcano thrown in to look badass!

My brand of autism formerly known as Aspergers walks the line between gift and disability. I like to think that I was purpose built to carry out my task in the same sense that you can't fit all the features on one battleship, which is why you have different classes: Aircraft carrier, cruiser, destroyer etc.

Love is a valuable commodity. But lack of love is the price I pay for efficiency. So I march on... alone... unloved... but efficient! And surely that's a valuable commodity as well?

## The Summers Joshua Jones

Spiderman squirting spider-silk from a white, cotton-spun vest /  
Girls think the fabulous muscles under my school uniform are real /  
A Birthday party in soft-play McDonalds/ Darth Vader cake /  
Hot Wheels arranged by size / plastic dinosaurs that taste of time /  
I wished for a brother / Wish fulfilled / I used to think all wishes come true  
/

Uncle and I with matching hair / Does your Mam cut your hair with the  
same bowl?/  
I wanted to kiss boys and girls / couldn't kiss either with these shitty  
fucking haircuts  
School was a timeloop / every Parents Evening every report repeated/  
Your son is bright and gifted / if only we could get him to pay attention!

Whenever I pay attention to pain / I see white lights and stiches/  
The first time feeling / space between socket and bone when pulled  
apart/  
A childhood documented by doctors, slings, casts and stitches /  
Was this why I retreated into myself? / To allow the body to fix itself? /

The summers of my childhood taste like wild garlic and vinegar  
Chips fall from my paper knees / I bury them in Tenby sand with my foot /  
This must be the place I felt I could exist somewhere physically /  
I don't wear costumes anymore / No more Spider-Man / just /  
Welsh salt / Welsh soil / This skin is a mask /

## New Hope Back in Wales Leigh Manley

Remember Tarw? Chipped up-field for leuan  
to set ablaze old concrete bowl?

Pastor Rhys benched me beside him Tuesday night,  
signing paperbacks for the congregation.

'Rugby and Revival'. Words to pluck  
Calon Lân on my harpist's soul

but I'm rushing ahead of myself here,  
failing to footnote my late arrival,

standing-room only; rear of scorching hall,  
upshot of losing my way in steeple-steep Ynysybwl

amid batch-loaf cottages as towns I once knew  
like my mother's soft palms. Zeke Listenbee, underway

tinkling eclectic ivory: 'Bennie & the Jets' confessing,  
succouring gospel at close hand. After, author of revival

story seizes mic, and moment, and hushing atrium,  
shares wisdom on life with purpose. Earth's existence:

perfect size, perfect distance from our sun; silver moon  
heaving unspilling tides; designs too divine for chancer's

pop at coincidence. Fayetteville calling. Life, thin as tissue.  
And suddenly, incoming memo from God knows

points out I forgot to sink medication, missionary touching  
on Evan Roberts, father of Welsh resurgence. And I call

myself a student of Hanes, but it's only in the coming days  
I learn, fathom. In 1905, pubs ran dry with punters not beer,

valley men cut from anthracite converted, and Gwyn Nicholls' rygbi bois beat the mighty All Blacks. Note the year Pope adapted

Evan's influence, scored 'Amazing Grace' for musical theatre, Ruddock's charges delivered another Grand Slam, first

for twenty-seven years: Gethin dribbling, Grav punching air. Coincidence? I play off the cuff; dragged-to-chapel childhood

postscripts for Sunday mornings tackling fear-studded slopes as drowned Treherbert flashes four decades of ambiguous faith.

Ever-present twinkles of lightsabre's swiping thrum, my mindfulness: no imagined hint of disbelief for Obi-Wan's religion.

Is Lord's Prayer such a galactic leap from Kenobi's teachings? Remember 'Episode IV: A New Hope'? Revived. Revived. Revived.

Did I believe I'd see the day? Prequels. Sequels. Skywalker spin-offs. Anscombe's post-pandemic miracle conversion

in Bloemfontein come Saturday. The force awakens. New Hope. Back in Wales. Rising. Reviving. In you? In me?



[www.disabilityarts.cymru](http://www.disabilityarts.cymru) | 07726112784 | [post@dacymru.com](mailto:post@dacymru.com)  
Sbectrwm, Heol Bwlch, Caerdydd, CF5 3EF

---